# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID
# 27 MEHEFIN 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 27ain Mehefin, 2019

**YN BRESENNOL:** **David Hytch (Is-Gadeirydd yn Cadeirio)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Bob Connah, Andy Dunbobbin, Kevin Hughes, Tudor Jones, David Mackie a Martin White

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Shaun Hingston

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Paul Cunningham ac Ian Smith

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr Paul Johnson ar ran y Cynghorydd David Healey a Sean Bibby ar ran y Cynghorydd Gladys Healey

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas. Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); ac Uwch-Reolwr, Gwella Ysgolion. (Ar gyfer cofnod rhif 14) Mr Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Mr Marc Berw Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod, croesawodd y Cadeirydd Shaun Hingston i'r cyfarfod, sydd wedi'i benodi'n ddiweddar yn aelod cyfetholedig i gynrychioli Cyngor yr Ifanc. Anerchodd Shaun Hingston y cyfarfod a diolch i'r Aelodau am y cyfle i fod yn rhan o'r Pwyllgor. Mae copi o'i ddatganiad ynghlwm wrth Atodiad 1 y cofnodion.

## 11. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 12. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a gofyn i'r Cadeirydd eu llofnodi.

**13. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED**

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (Atodiad 1), sydd wedi'i diweddaru ers y cyfarfod diwethaf. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 25 Gorffennaf yn gyfarfod ar y cyd efo'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at gamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol ac adroddodd ar y canlyniadau (gweler Atodiad 2 yr adroddiad). Dywedodd fod gwybodaeth hefyd wedi'i chynnwys ar benderfyniad y Cabinet ynglŷn ag ystyried yr Adolygiad o'r Polisi Trafnidiaeth yn ôl Disgresiwn – adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad, yn y cyfarfod ar 18 Mehefin, ac ystyried yr hysbysiad o gynnig, a gyflwynwyd gan y Cynghorydd David Healey i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 18 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd;

(b) Awdurdodi'r Hwylusydd, ar ôl ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu heb eu cwblhau.

**14. GWASANAETH EFFEITHLONRWYDD A GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL (GWE)**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, a Mr Marc Berw Hughes i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad i ddarparu diweddariad ar gynnydd datblygu gwasanaeth effeithlonrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol a sut mae'r model newydd yn cael ei dderbyn a'i sefydlu. Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer 2018-19 yn darparu trosolwg manwl o waith y Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ymdrin â sawl maes gan gynnwys safonau, darpariaeth, cyfraniad y gwasanaeth at y rhaglen drawsnewid genedlaethol, gweithio mewn partneriaeth a materion busnes. Mae'r atodiadau i'r adroddiad yn darparu rhywfaint o wybodaeth benodol am ganlyniadau dysgwyr a safonau addysg yn Sir y Fflint. Maent hefyd yn darparu dadansoddiad o ymateb arweinwyr ysgol Sir y Fflint a'u barn am effeithiolrwydd y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, a gasglwyd yn ddiweddar drwy holiadur. Mae'r prif feysydd i'w datblygu, a nodwyd drwy'r prosesau hunanwerthuso a gynhaliwyd o fewn GwE, yn flaenoriaethau yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

Dywedodd y Prif Swyddog y dylid darllen yr Adroddiad Blynyddol ar y cyd ag adroddiad hunanwerthuso'r Awdurdod, a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod diwethaf. Eglurodd fod swyddogion GwE wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu'r adroddiad hwnnw, sy'n darparu barn gynhwysfawr ar ansawdd gwasanaethau addysg yn Sir y Fflint ac yn dangos y

gwaith partneriaeth effeithiol sy’n digwydd i gefnogi holl ysgolion yr Awdurdod i wella a chael y canlyniadau gorau ar gyfer dysgwyr Sir y Fflint.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at arolwg diweddar Estyn o wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a dywedodd y bydd canlyniad yr arolwg yn cael ei gyhoeddi ar 9 Awst 2019. Diolchodd am y cyfraniad aruthrol sydd wedi’i wneud gan GwE at y broses arolygu a soniodd am y berthynas waith agos rhwng swyddogion GwE a’r Awdurdod. Gwahoddodd y Prif Swyddog Arwyn Thomas i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018-19 GwE.

Dywedodd Mr Thomas, fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, y byddai GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth wrth ddarparu swyddogaethau’r gwasanaeth a chyrraedd nodau allweddol. Dywedodd fod adroddiad blynyddol GwE yn darparu trosolwg o’r meysydd canlynol: cefndir a chyd-destun, safonau, darpariaeth, y daith ddiwygio, gweithio mewn partneriaeth, busnes a blaenoriaethau cynllun busnes ar gyfer 2019-20. Hefyd, mae’n cynnwys sawl atodiad sy’n cyfeirio’n benodol at y gwaith cefnogi a wneir yn ysgolion Sir y Fflint.

Soniodd Arweinydd y Cyngor a’r Aelod Cabinet Addysg am y gwaith rhwng yr Awdurdod a GwE i geisio gwella ysgolion os oes angen cymorth arnynt a mynd i’r afael â'r berthynas a rheoli model. Soniodd hefyd am y gwaith agos gydag Aelodau Cabinet gogledd Cymru a Phrif Swyddogion yn dilyn y pryderon a godwyd ynghylch canlyniadau’r arholiad TGAU Saesneg. Diolchodd y Cynghorydd Roberts i Mr Thomas am ei gyflwyniad manwl.

Cyfeiriodd Shaun Hingston at Atodiad 2 yr adroddiad, sy’n disgrifio’r newidiadau y mae’n rhaid i ysgolion eu gwneud fel rhai cythryblus sy’n gwasgu ysgolion i’r eithaf. Fodd bynnag, mae Adroddiad Blynyddol GwE yn cydnabod y cyfnod anodd y mae ysgolion, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yn ei wynebu yn ariannol, o ran gwariant datganoledig. Gofynnodd pa fesurau y bydd GwE yn eu rhoi ar waith, yn ystod y newidiadau hyn, er mwyn helpu ysgolion gefnogi staff a myfyrwyr, yn enwedig yn ariannol, er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial. Ymatebodd Mr Arwyn Thomas i amlinellu’r ffordd y mae GwE wedi helpu i reoli adnoddau a sicrhau bod eu cyllidebau wedi’u lleihau i sicrhau cymorth ariannol parhaus i ysgolion. Amlinellodd y dysgu ar y cyd a geir rhwng GwE ac ysgolion gogledd Cymru er mwyn parhau i ddarparu cymorth ar lefel athro.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Tudor Jones, eglurodd Mr Arwyn Thomas fod GwE wedi esblygu o ‘herio ysgolion’ i’w ‘cefnogi’ i wella ac arloesi. Amlinellodd yr Uwch-Reolwr, Gwella ysgolion, sut mae cefnogaeth yn cael ei dargedu i’r mannau angenrheidiol.

Talodd y Cynghorydd Kevin Hughes deyrnged i benaethiaid a staff ysgol yn Sir y Fflint am wneud gwelliannau parhaus a derbyn canlyniadau cadarnhaol er gwaetha’r pwysau ariannol. Cyfeiriodd at y data perfformiad sy’n dangos bod merched yn parhau i berfformio’n well na bechgyn a mynegodd bryder ynghylch nifer isel y disgyblion sy’n dewis astudio cyrsiau gwyddoniaeth ar lefel uwch a gofynnodd sut eir i’r afael â hyn. Soniodd hefyd am bwysigrwydd celf a cherddoriaeth mewn ysgolion. Cytunodd y Prif Swyddog fod celf a cherddoriaeth yn bwysig, gan ychwanegu bod y ddarpariaeth yn parhau i gael ei gwerthfawrogi ar draws ysgolion Sir y Fflint. Dywedodd yr Uwch-Reolwr, Gwella Ysgolion, fod

cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy’n dewis astudio cyrsiau gwyddoniaeth o gymharu â’r llynedd. Soniodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg fod y cwricwlwm yn gyfyng iawn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a dywedodd y bydd y cwricwlwm newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno fis Medi 2022, yn mynd i’r afael â hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at yr atodiadau i’r adroddiad a dywedodd fod angen rhagor o fanylion ynghylch gofynion dysgu penodol i sicrhau bod Aelodau yn gallu deall yr wybodaeth a ddarperir. Cytunodd Mr Arwyn Thomas fod modd darparu mwy o naratif yn y dyfodol i helpu Aelodau i ddeall y data a geir mewn adroddiadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at y ffigyrau perfformiad ar gyfer ysgolion Sir y Fflint. Dywedodd fod TGAU Lefel 2 yn cael ei ystyried yn gyflawniad safon aur ond yn ôl StatsCymru mae canran y disgyblion sy’n cyrraedd y safon honno ymhob sir yng ngogledd Cymru wedi gostwng rhwng 2013, pan gymerodd GwE’r awenau, a 2018. Dim ond tair sir arall sydd wedi gweld gostyngiad, mae 13 wedi gwella. Mae siroedd gogledd Cymru wedi gostwng 37 safle yn ystod yr amser hwnnw. Yn ystod cyfarfod mis Tachwedd 2018 dywedodd Cydbwyllgor GwE fod Strategaeth Gwella Ysgolion Uwchradd (Medi 2017) yn nodi’r cyfeiriad ar gyfer datblygiadau rhanbarthol dros y tair blynedd nesaf. Gofynnodd y Cynghorydd Mackie a oes modd i'r Pwyllgor weld y strategaeth honno, gan obeithio ei bod yn nodi newidiadau, targedau ac yn dangos cynnydd.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog fod perfformiad wedi gwella’n raddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf drwy gydweithio gyda GwE. Yn ôl cynllun busnes lefel 3 mae’n rhaid i bob ysgol sicrhau bod ganddi’r gefnogaeth sydd ei hangen arni. Dywedodd ei bod yn hyderus fod gan bob ysgol yn Sir y Fflint gynllun pwrpasol sy’n diwallu anghenion ac yn parhau i wella perfformiad yr ysgol. Nid yw ysgolion na swyddogion yn hunanfodlon ac maent yn symud i’r cyfeiriad cywir i fynd yn ôl at y cyfraddau perfformiad blaenorol.

Mewn ymateb i sylwadau’r Cynghorydd Mackie ar gynlluniau busnes GwE, dywedodd Mr Arwyn Thomas fod yr adroddiad wedi’i gyflwyno i Gydbwyllgor GwE ym mis Tachwedd 2015 ac y cydnabuwyd, fel rhanbarth, fod GwE yn parhau ar drywydd i wella. Gofynnodd y Cynghorydd Mackie a yw’n bosibl i Aelodau dderbyn copi o’r adroddiad hwn er mwyn asesu pa gamau gweithredu sydd ar waith i ddelio gyda’r pryderon a godwyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Johnson sut mae GwE yn helpu i ddatblygu a gwella newidiadau diwylliannol mewn ysgolion. Cyfeiriodd Mr Arwyn Thomas at yr ymateb cadarnhaol, a nodir yn yr adroddiad, sydd wedi’i dderbyn gan ysgolion pan ofynnwyd iddynt am eu barn ynghylch y berthynas rhwng GwE, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Dywedodd fod yn rhaid i newidiadau diwylliannol gael eu gwneud ‘o’r top i’r gwaelod’ a bod parhau i annog ysgolion i gydweithio a rhannu arfer orau yn un newid diwylliannol fydd yn cael ei edrych arno. Dywedodd y Prif Swyddog fod safonau lles mewn ysgolion yn Sir y Fflint yn rhagorol ac nad yw hynny’n digwydd heb ddiwylliant iach mewn ysgolion. Bydd adroddiad Estyn, fydd yn cael ei gyhoeddi gyda hyn, yn rhoi trosolwg cyfunol o’r diwylliant o fewn Sir y Fflint fel awdurdod lleol a’r berthynas rhwng ysgolion unigol.

Gofynnodd y Cynghorwyr Mackie a Janet Axworthy a oes modd cylchredeg copi o Strategaeth Gwella Cyfnod Allweddol 4 GwE i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod. Hefyd, gofynnodd y Cynghorydd Axworthy a oes modd cyflwyno adroddiad ar waith y Gwasanaeth Cerdd i'r Pwyllgor.

Gofynnodd Shaun Hingston sut mae GwE yn ymgynghori gyda phobl ifanc ynghylch strategaeth ac adolygu a gofynnodd a oes modd rhoi ystyriaeth i estyn aelodaeth Cydbwyllgor GwE i gynnwys cynrychiolydd pobl ifanc. Dywedodd Mr Arwyn Thomas ei fod yn fodlon cyflwyno'r awgrym hwn yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y cynnydd yn yr ymgysylltu rhwng yr awdurdod lleol a phobl ifanc a dywedodd ei bod yn fodlon trafod yr awgrym hwn gyda chydweithwyr yn GwE.

Dywedodd y Cadeirydd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ond mynegodd bryderon ynghylch yr anawsterau wrth recriwtio ieithyddion cymwys i addysgu Cymraeg fel ail iaith yn ogystal â staff ar bob lefel sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Soniodd am y sefyllfa ariannol sydd ohoni a'r angen i barhau i wella gydag adnoddau sy'n prinhau. Soniodd hefyd am y pwysau sydd ar benaethiaid a'r ddyletswydd gofal i weithwyr a roddir ar lywodraethwyr ysgol er mwyn rheoli lles a chydbwysedd gwaith a bywyd staff.

Dywedodd y Prif Swyddog ei bod yn bryderus ynghylch nad yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd yn digwydd ar lefel uwchradd a dywedodd fod angen newid y diwylliant yn yr ysgolion uwchradd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg. Roedd hi'n cydnabod bod yna bryderon ynghylch Llywodraeth Cymru yn gosod targedau sylweddol a ddim yn rhoi'r seilwaith priodol yn ei le i gynorthwyo gyda'r newidiadau.

Mewn ymateb i sylwadau ar les penaethiaid, dywedodd y Prif Swyddog fod swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i sicrhau y darperir cefnogaeth i benaethiaid. Dywedodd fod swyddogion yn cefnogi ei gilydd a bod ansawdd y cyfathrebu gydag ysgolion wedi bod yn gadarnhaol, yn arbennig o ran darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion y gyllideb. Gwahoddir penaethiaid i siarad am unrhyw fater maent yn ei hwynebu ac i dderbyn y gefnogaeth a gynigir. Yn ôl yr adborth a dderbyniwyd, mae'r awdurdod lleol yn gefnogol iawn o benaethiaid.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi awgrym y Prif Swyddog o ran trefnu gweithdy i Aelodau yn ystod tymor yr hydref i drafod mesuryddion perfformiad, data dadansoddol cymharol a safon cyfleusterau ysgolion yn Sir y Fflint mewn mwy o fanylder.

Diolchodd y Cadeirydd i Arwyn Thomas a Marc Berw Hughes am ddod i'r cyfarfod ac am eu cyflwyniad a'u hymatebion manwl i gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn Adroddiad Blynyddol GwE; a

(b) Nodi effaith gadarnhaol y gwasanaeth rhanbarthol ar safonau addysg ysgolion Sir y Fflint.

## 15. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.50 pm)

.....................................................

**Cadeirydd**

**ATODIAD 1**

Y Cadeirydd, yr Arweinydd Roberts ac Aelodau'r Pwyllgor,
Mae'n fraint gennyf fod yma heddiw fel y person ieuengaf erioed i gael ei benodi i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Sir y Fflint. Rwyf yma heddiw, yng nghalon ein democratiaeth leol, yn llawn diolch i Gyngor yr Ifanc Sir y Fflint am fy ethol ac am eu hyder ynof fel eu cynrychiolydd. Diolch hefyd i'r swyddogion, Aelodau Etholedig, Aelodau Pwyllgor a'r Hwyluswyr sydd wedi fy nghefnogi, fy annog a'm cynghori, a gwneud i'r posibilrwydd pell hwn fod yn realiti unigryw. Rwyf yn hynod ddiolchgar i Ali Thomas a Kate Glover-Jones am sicrhau fy mod i'n gallu sefyll yma heddiw a chynrychioli degau ar filoedd o bobl ifanc sy'n byw, gweithio, mynd i'r ysgol neu'n derbyn gwasanaethau yn Sir y Fflint.

Hoffaf ddiolch i'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Ian Roberts, a Chadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Dave Healey, am fy mharatoi, ac i'm Dirprwy, Tommy Comber, am drafodion y Pwyllgor hwn. Hoffaf hefyd gyfeirio at y cyflwyniad cadarnhaol a gefais gyda'r Dirprwy Gadeirydd, Mr Hytch, cyn dechrau'r cyfarfod hwn. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda chi a'ch cefnogi, wrth i chi lywio'r Pwyllgor yn ddoeth at y gwaith llwyddiannus y byddwn, gyda'n gilydd, yn gallu ei gyflawni.

Gadeirydd,
Drwy dderbyn fy mhenodiad fel Cynrychiolydd Cyngor yr Ifanc yn llawen, mae'r Pwyllgor hwn yn rhoi cyfle hollol newydd i mi. Am y tro cyntaf yn hanes ein Llywodraeth Leol, mae person ifanc wedi derbyn cyfle i siarad ar ran y rheiny sy'n aml iawn yn cael eu hanghofio a'u hanwybyddu. Gyda'n gilydd rydym ni wedi gosod cynsail a phan fyddaf yn gadael y sedd hon bydd person ifanc, gyda dyheadau newydd, gobeithion newydd a phrofiadau gwahanol, yn gallu effeithio ar waith y Pwyllgor a chreu dyfodol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Fel yr wyf i'n bwriadu ei wneud. Wedi'r cwbl, mae'r Pwyllgor hwn yn canolbwyntio ar y gwasanaethau hanfodol y mae Cyngor Sir y Fflint yn eu cynnig ar gyfer pobl ifanc, eu diogelwch, eu datblygiad a'u lles.

Mae'r galw am gynrychiolaeth dan arweiniad pobl ifanc yn dyst i berthnasedd parhaus Cyngor Sir y Fflint fel catalydd ar gyfer polisïau sy'n canolbwyntio ar yr ifanc yn ogystal â'i le canolog wrth wella cyfleoedd pobl ifanc i ddatblygu'n ddinasyddion ac ymgorffori'r egwyddorion a geir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ond ceir sawl rhwystr wrth arloesi'r ffordd i gael cymuned o gynrychiolaeth leol amrywiol, a gwahanol sy'n pontio'r cenedlaethau. Fel Aelod o'r Pwyllgor hwn, byddaf yn manteisio i'r eithaf ar yr awdurdod a roddir i'r corff hwn, y llais cyhoeddus yr wyf bellach yn ei ddarparu a'r mandad a roddwyd i mi gan gynrychiolwyr pobl ifanc. Byddaf yn gweithio'n ddiwyd i ymgymryd â'n cyfrifoldeb i warchod pobl ifanc mwyaf diamddiffyn ein cymunedau ac i barhau i wella a diogelu ein gwasanaethau lleol, y mae llawer o bobl ifanc yn dibynnu arnynt. Byddaf yn parhau i adeiladu ar y gwaith gwych y mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi ei gyflawni. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i wasanaethu pobl ifanc Sir y Fflint yn rhinwedd yr anrhydedd a'r swydd bwysig hon. Diolch.